Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion
# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Briff a Chanllawiau

## Dyddiad cau: 17:00 Dydd Mawrth 20 Medi 2022

## 1. Crynodeb o'r alwad hon

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn dymuno gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru i greu a chydariannu Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ymrwymo £2.5-£3m i'r fenter hon dros gyfnod o 5 mlynedd i ariannu clwstwr o swyddi ar lefel ymchwilwyr athrawol ac uwch ymchwilwyr sydd wedi eu gwreiddio mewn amgylchedd academaidd cefnogol a deniadol.

Disgwylir i'r SAU llwyddiannus ddarparu cyllid ar y cyd yn ystod y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd, a chael cynllun cynaliadwy ar gyfer ariannu'r swyddi y tu hwnt i dymor buddsoddiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Dylai SAUau sydd â diddordeb lenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb sy'n cyd-fynd â'r briff hwn.

## 2. Rhesymeg dros yr alwad hon

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru flaenoriaeth strategol i weithio gyda phrifysgolion Cymru, byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal i **greu a chynnal y capasiti a'r gallu** yn y sefydliadau hynny i arwain, cynnal a chefnogi ymchwil iechyd a gofal.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn dymuno cynyddu ei fuddsoddiad mewn ymchwil a gwerthuso gofal cymdeithasol, ac yn wir, mae wedi cynyddu'r cyfleoedd a gynigir drwy ei gynlluniau ariannu a'i ddyfarniadau personol.

Bu cydnabyddiaeth gynyddol, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU, o bwysigrwydd ymchwil gofal cymdeithasol yn gyffredinol, ac ymchwil gofal cymdeithasol oedolion yn benodol, wrth i faterion yn ymwneud â phoblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol gynyddu. Arweiniodd hyn at fuddsoddiad cynyddol gan amrywiaeth o gyllidwyr y DU, gan gynnwys: y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, gyda'i gefnogaeth i'r rhaglen IMPACT a arweinir gan Birmingham a'r Ganolfan Ofal a arweinir gan Sheffield; UKRI gyda'i raglen her heneiddio'n iach; a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (NIHR) yn Lloegr, gyda chyfleoedd gofal cymdeithasol pwrpasol newydd yn cael eu cynnig trwy raglenni ariannu ymchwil NIHR.

Fodd bynnag, er bod cryfderau'n gysylltiedig ag ymchwil gofal cymdeithasol plant yng Nghymru, yn arbennig drwy'r Ganolfan CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd, mae capasiti ymchwil gofal cymdeithasol oedolion yn gyfyngedig o hyd, a gellir dadlau ei fod wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r capasiti cyfyngedig hwn wedi gadael Cymru mewn sefyllfa wael i fanteisio ar y cyfleoedd ariannu hyn.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru felly yn dymuno gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru i greu a chydariannu Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion a all greu màs critigol o ymchwilwyr sy'n gallu ennill cyllid ymchwil ar lefel genedlaethol a lefel ryngwladol a chyfrannu at ddatblygiad polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru.

Mae llawer i'w ddysgu o'n canolfannau mwyaf llwyddiannus mewn meysydd eraill o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn fwyaf nodedig, efallai, mae canolfannau llwyddiannus yn dangos arweinyddiaeth academaidd gref a chyson gan unigolion sydd â phroffiliau cryf ac enw da yn genedlaethol a rhyngwladol.

Yn nodweddiadol, mae gan ganolfannau llwyddiannus hefyd: strategaeth glir sydd wedi'i hystyried yn ofalus yn seiliedig ar wybodaeth am y dirwedd ehangach a ffocws ar feysydd cryfder; partneriaethau da ar draws y DU ac yn rhyngwladol gyda sefydliadau eraill sydd eisiau partneru â nhw; ymagwedd gynaliadwy tuag at arweinyddiaeth, datblygiad staff a thwf; ac

amgylchedd SAU cefnogol, gydag ymrwymiad sefydliadol cryf i fuddsoddi o'i adnoddau ei hun a gwreiddio canolfannau mewn strwythurau SAU ehangach.

Mae'n dilyn y bydd angen i SAUau sydd â diddordeb yn y cyfle a gynigir gan yr alwad hon ddangos:

- aliniad â chynlluniau strategol a chryfderau ymchwil presennol y SAU;
- ymrwymiad i wreiddio'r Ganolfan mewn strwythurau ysgol neu gyfadran ehangach mewn perthynas ag addysgu ac ymchwil;
- y gallu i ddenu cyfarwyddwr cryf ac uwch staff, yn ôl pob tebyg o fannau eraill yn y DU;
- tystiolaeth y bydd pob swydd yn cael ei gwreiddio mewn amgylchedd academaidd cefnogol a deniadol;
- y gallu dilynol i ddenu a chadw ymchwilwyr eraill ar bob lefel i adeiladu màs critigol;
- y gallu i ffurfio partneriaethau a chydweithrediadau ehangach, yng Nghymru a'r DU;
- y gallu i fanteisio ar gyfleoedd ariannu a gynigir gan gyllidwyr eraill, megis NIHR a'r ESRC, ac ennill cyllid ymchwil cystadleuol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol;
- ymrwymiad adnoddau yn ystod cyfnod buddsoddi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a thu hwnt;
- strategaeth gredadwy ar gyfer cynaliadwyedd a thwf hirdymor.

## 3. Prif nodweddion yr alwad hon

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu cyllid o hyd at £3m dros 5 mlynedd (tua £500-600k y flwyddyn, er y gellir ei broffilio a’i gyflwyno’n hyblyg dros gyfnod y grant) i gefnogi buddsoddiad ar y cyd ag un SAU i greu Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion a meithrin capasiti mewn ymchwil gofal cymdeithasol oedolion.

- Yn ystod y cyfnod, rhaid i'r SAU recriwtio i nifer o uwch swyddi academaidd a fydd yn rhoi'r Ganolfan mewn sefyllfa gref i ymgeisio ac ennill cyllid ymchwil ychwanegol ar lefel y DU ac yn rhyngwladol.

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu cyllid ar gyfer swyddi, *gan gynnwys argostau*, ac mae'n ceisio cyllid ar y cyd dros y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd a sicrwydd y bydd swyddi'n cael eu gwneud yn barhaol y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd.

- Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweld hwn fel buddsoddiad

seilwaith (yn hytrach na chyllid ar gyfer prosiectau ymchwil) ac i gydnabod natur ac agwedd partneriaeth y buddsoddiad, ni fydd yn talu gorbenion FEC ar y swyddi hyn.

- Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweithio gyda'r SAU llwyddiannus i recriwtio cyfarwyddwr y Ganolfan ac uwch dîm, ac wrth sefydlu'r cytundeb cydariannu.

- Gofynnir i ymgeiswyr nodi y gall fod angen cyfnod o drafod, asesu ac iteru cyn y bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn sefyllfa i roi dyfarniad cyllid ffurfiol.

## 4. Sut i wneud cais

Dylai sefydliadau â diddordeb wneud cais trwy lenwi ffurflen mynegi diddordeb y Ganolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion sy'n cyd-fynd â'r briff hwn.

*Rhaid* i sefydliadau â diddordeb ddarparu copi electronig *wedi'i lofnodi'n llawn* o'r ffurflen mynegi diddordeb erbyn **17:00 (5pm) ar 20 Medi 2022**.

Bydd sefydliadau ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyflwyno i'n panel adolygu allanol ym mis Hydref 2022 (dyddiad i'w bennu).

Er nad ydym angen copi caled (papur) o'ch ffurflen, *rhaid* i bob llofnodwr gael *ei gopïo i mewn* pan fyddwch yn anfon eich cyflwyniad electronig atom mewn e-bost.

Darparwch eich ffurflen wedi'i chwblhau mewn Word a Fformat Dogfen Gludadwy (PDF).

Anfonwch eich ffurflen mynegi diddordeb mewn e-bost i flwch post Tîm Grantiau'r Is-adran Ymchwil a Datblygu:
healthandcareresearchgrants@gov.wales

Nodwch eich e-bost at sylw Michael Bowdery.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch llenwi'r ffurflen mynegi diddordeb neu'r broses gyflwyno, cysylltwch â'r Is-adran Ymchwil a Datblygu yn Llywodraeth Cymru drwy ein blwch post:
healthandcareresearchgrants@gov.wales